Canllawiau cyflym i staff gorsafoedd pleidleisio

Dylid defnyddio'r canllawiau hyn ochr yn ochr â **Llawlyfr y Comisiwn i staff gorsafoedd pleidleisio.** Mae cyfeiriadau tudalennau a roddir yn y canllawiau hyn yn dangos lle mae gwybodaeth fanylach i'w chael yn y llawlyfr.

Pwy all bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio? t 18

Mae llythyren wrth ymyl cofnod etholwr ar y gofrestr yn pennu a oes ganddo hawl i bleidleisio yn yr etholiad ai peidio. Dim ond yr etholwyr canlynol y **gellir** rhoi papur pleidleisio iddynt yn yr orsaf bleidleisio:

Llythrennau	Pwy
Dim llythrennau	Etholwyr cyffredin
Dim llythrennau **+N**	Etholwyr sydd wedi'u cofrestru'n ddienw
Dyddiad ar neu cyn y diwrnod pleidleisio	Etholwyr a fydd yn 18 oed ar neu cyn y diwrnod pleidleisio (oni bai bod ganddynt **A, B, G, L** neu **M** wrth ymyl eu henw hefyd)
F neu **F+N**	Etholwyr tramor

Pwy na all bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio? t 18

Ni ddylid rhoi papur pleidleisio i'r etholwyr canlynol yn yr orsaf bleidleisio:

Llythrennau	Pwy
Dyddiad ar ôl y diwrnod pleidleisio	Etholwyr na fyddant yn 18 oed tan ar ôl y diwrnod pleidleisio
A neu **A+N**	Pleidleiswyr post
B neu **B+N**	Rhai dinasyddion o aelod-wladwriaethau'r UE
G neu **G+N**	Rhai dinasyddion o aelod-wladwriaethau'r UE
L neu **L+N**	Arglwyddi
M neu **M+N**	Dinasyddion tramor cymwys

Beth yw'r broses bleidleisio arferol?	t 16-22
Cam 1 – gwirio'r pleidleisiwr	Cyfarchwch yr etholwr, gofynnwch iddo nodi ei enw a'i gyfeiriad.
	Cadarnhewch ei fod yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiad drwy wirio ei gofnod ar y gofrestr.
Cam 2 – gwirio ID ffotograffig yr etholwr	Gofynnwch i'r etholwr am ei ID ffotograffig.
	Gwiriwch fod yr ID a ddarparwyd wedi'i gynnwys ar y rhestr o ID ffotograffig a dderbynnir, bod y llun yn debyg iawn i'r etholwr, bod yr enw arno yn cyfateb i'r cofnod ar y gofrestr a'i fod yn ymddangos yn ffurf ddilys o ID.
	Rhowch yr ID yn ôl i'r etholwr.
Cam 3 – marcio'r gofrestr a chwblhau'r gwaith papur ID pleidleisiwr	Tynnwch linell syth yn erbyn (ond nid trwy) gofnod y pleidleisiwr ar y gofrestr.
	Gwiriwch y gwaith papur ID pleidleisiwr i weld a yw manylion y pleidleisiwr wedi'u cofnodi eisoes ac os felly, diweddarwch ef i ddangos eu bod bellach yn cael papur pleidleisio.
	Diweddarwch y Ffurflen Gwerthuso ID Pleidleisiwr os yw'r etholwr yn defnyddio Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr neu Ddogfen Etholwr.
Cam 4 – rhoi'r papur pleidleisio	Ysgrifennwch rif yr etholwr ar y rhestr rhifau cyfatebol ochr yn ochr â rhifau'r papur pleidleisio perthnasol.
	Sicrhewch fod y papur pleidleisio a roddir yn cynnwys y marc swyddogol.
	Plygwch y papur pleidleisio ac yna rhowch ef ar y bwrdd **heb ei blygu**. Gofynnwch i'r pleidleisiwr ei ail-blygu unwaith y bydd wedi marcio ei bapur pleidleisio yn y bwth pleidleisio.
Cam 5 – pleidleisio	Mae'r pleidleisiwr yn marcio'r papur pleidleisio ym mhreifatrwydd y bwth pleidleisio.
	Gofynnwch i'r pleidleisiwr ddangos rhif y papur pleidleisio a'r marciau adnabod unigryw i chi ar gefn y papur pleidleisio cyn iddo ei roi yn y blwch pleidleisio.

Beth os…

Nid yw'r sawl sydd â'r allwedd wedi cyrraedd? t 7

Ceisiwch gysylltu â'r sawl sydd â'r allwedd. Os oes angen, gwnewch drefniadau amgen, e.e. sefydlu gorsaf bleidleisio dros dro. Rhowch wybod i'r swyddfa etholiadau. Rhaid i'r cyfnod pleidleisio am 7am.

Mae etholwr yn difetha ei bapur pleidleisio? t 22

Canslwch y papur pleidleisio a ddifethwyd. Rhowch y papur pleidleisio yn yr amlen briodol, ysgrifennwch 'canslwyd' ar y rhestr rhifau cyfatebol a rhowch bapur pleidleisio arall i'r etholwr.

Nid ydych yn siŵr bod ID ffotograffig pleidleisiwr yn fath o ID ffotograffig a dderbynnir? t 19

Mae'r rhestr lawn o ID ffotograffig a dderbynnir i'w gweld ar dudalen 19.

Mae rhai enghreifftiau hefyd o ID ffotograffig a dderbynnir yn Atodiad 12.

Nid oes gan etholwr ffurf o ID ffotograffig a dderbynnir? t 21

Dylech esbonio i'r etholwr bod angen ID ffotograffig er mwyn pleidleisio a gofyn iddo ddychwelyd gyda ffurf dderbyniol o ID ffotograffig fel y gellir rhoi papur pleidleisio iddo.

Dylech hefyd wirio a diweddaru taflen nodiadau'r ffurflen gwerthuso ID pleidleisiwr i ddangos bod yr etholwr (neu'r dirprwy) wedi'i droi i ffwrdd oherwydd na ddarparodd math o ID ffotograffig a dderbynnir.

Mae etholwr anabl angen cymorth? t 30-34

Cynigiwch gymorth iddo. Eglurwch pa gymorth sydd ar gael iddo.

Mae'r unigolyn sy'n gofyn am bapur pleidleisio yn ymddangos ar y gofrestr fel rhywun sydd eisoes wedi pleidleisio? t 51-55

Gwiriwch a oedd yr unigolyn wedi penodi dirprwy. Os na, dilynwch y broses ar gyfer y papur pleidleisio a gyflwynwyd. Gofynnwch y cwestiynau rhagnodedig a gwiriwch ID ffotograffig yr etholwr cyn rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd. Peidiwch â rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd os na chaiff y cwestiynau eu hateb yn foddhaol neu os na ddarperir ID ffotograffig a dderbynnir. Rhowch wybod i'r swyddfa etholiadau.

Mae etholwr gyda llythyren 'A' ar y gofrestr yn dweud na wnaeth gais i bleidleisio drwy'r post? t 44

Peidiwch â rhoi papur pleidleisio cyffredin. **Os yw wedi derbyn ei bleidlais bost:** anogwch yr etholwr i'w dychwelyd i'r orsaf bleidleisio neu'r swyddfa etholiadau erbyn 10pm. Os nad yw am ei ddychwelyd, dilynwch y weithdrefn ar gyfer papur pleidleisio a gyflwynwyd. **Os nad yw wedi derbyn ei bleidlais bost:** os yw cyn 5pm, cyfeiriwch yr etholwr i'r swyddfa etholiadau i gael un arall; os yw ar ôl 5pm, neu os nad yw am gael un arall, dilynwch y weithdrefn ar gyfer papur pleidleisio a gyflwynwyd. Gofynnwch y cwestiynau rhagnodedig cyn rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd. Peidiwch â rhoi papur

pleidleisio a gyflwynwyd os na chaiff y cwestiynau eu hateb yn foddhaol neu os na ddarperir ID ffotograffig a dderbynnir

Mae etholwr yn honni ei fod wedi colli neu heb dderbyn ei bleidlais bost? t 45

Peidiwch â rhoi papur pleidleisio cyffredin i'r etholwr. **Cyn 5pm:** cyfeiriwch yr etholwr at y swyddfa etholiadau i gael un arall. **Ar ôl 5pm:** dilynwch y weithdrefn pleidleisio a gyflwynwyd. Gofynnwch y cwestiynau rhagnodedig a gwiriwch ID ffotograffig yr etholwr cyn rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd iddo. Peidiwch â rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd os na chaiff y cwestiynau eu hateb yn foddhaol neu os na ddarperir ID ffotograffig a dderbynnir.

Mae pleidleisiwr yn gofyn sut i gwblhau ei bapurau pleidleisio? t 23-24

Darllenwch y cyfarwyddiadau ar y papur pleidleisio ac enwau'r ymgeiswyr wrth iddynt ymddangos ar y papur pleidleisio.

Nid yw person ar y gofrestr nac ar unrhyw un o'r hysbysiadau? t 35-36

Peidiwch â rhoi papurau pleidleisio iddo. Cyfeiriwch y pleidleisiwr i'r swyddfa cofrestru etholiadol.

Nid oes gan etholwr enw na chyfeiriad ar ei gerdyn pleidleisio? t 49

9Anfonir cardiau pleidleisio fel hyn at etholwyr sydd wedi cofrestru'n ddienw. Peidiwch â gofyn am enw a chyfeiriad yr etholwr. Dilynwch y weithdrefn ar gyfer rhoi papur pleidleisio i etholwr dienw.

Mae etholwr eisiau dychwelyd ei bleidlais bost i'r orsaf bleidleisio? t 40-44

Gwiriwch y gellir dychwelyd y bleidlais bost i'r orsaf bleidleisio. Os na all, neu os ydych yn ansicr, cyfeiriwch yr etholwr at y swyddfa etholiadau. Os gall, llenwch ffurflen pleidlais bost gyda'r etholwr a dilynwch y weithdrefn ar gyfer cyflwyno pleidlais bost yn Atodiad 3a.

Mae unigolyn yn gofyn am gael pleidleisio ar ran rhywun sydd wedi cael argyfwng meddygol? t 47-48

Dim ond os yw wedi'i benodi'n swyddogol fel dirprwy brys y gallwch roi papur pleidleisio iddo. Os na, eglurwch y gellir penodi dirprwyon brys tan 5pm, a chyfeiriwch yr unigolyn at y swyddfa cofrestru etholiadol am ragor o wybodaeth am y broses hon.

Mae aflonyddwch difrifol (e.e. tân, llifogydd, ac ati)? t 58-59

Peidiwch â rhoi diogelwch unrhyw un mewn perygl. Os yw'n ddiogel gwneud hynny, sefydlwch orsaf bleidleisio newydd gerllaw. Rhowch wybod i'r swyddfa etholiadau.